

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

28 Hydref 2026

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:

Archwiliad o rôl yr heddlu mewn grwpiau cynghori ar ddiogelwch: cynllunio ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus mawr

Rwy'n croesawu'r adroddiad ar y cyfraniadau y mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn eu gwneud i grwpiau cynghori ar ddiogelwch, ac rwy'n cefnogi'r 11 argymhelliad ar gyfer prif gwnstabliaid a heddluoedd.

Rwy'n cydnabod nad oedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r ardaloedd heddlu a arolygwyd, ond fe wnaethant ymateb i'r arolwg fel rhan o'r arolygiad. Rwyf wedi gofyn i Heddlu Dyfed-Powys am wybodaeth a sicrwydd ynglŷn â'u sefyllfa bresennol o ran pob un o'r argymhellion perthnasol, a'u cynlluniau ar eu cyfer.

Argymhelliad 8: Erbyn 31 Awst 2027, dylai pob prif gwnstabl ddarparu hyfforddiant penodol yn ymwneud â grwpiau cynghori ar ddiogelwch ar gyfer y sawl sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y grwpiau hynny o'r heddlu nad ydynt wedi cael hyfforddiant trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd.

Rwyf wedi cael gwybod bod Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer swyddogion o reng arolygydd ac uwch nad ydynt wedi cael hyfforddiant mewn trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd (POPS).

Argymhelliad 9: Yn ddiymdroi, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod eu swyddogion yn defnyddio'r templed diogelwch torfeydd a digwyddiadau bob amser pan fyddant yn ymgysylltu â threfnwyr digwyddiadau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cysylltu â'r Coleg Plismona i ofyn am gopi o'r templed diogelwch torfeydd a digwyddiadau. Mae matricsau protestiadau a digwyddiadau eisoes ar waith, yn cael eu hyrwyddo'n fewnol, ac yn cael eu defnyddio'n dda gan staff. Y weithdrefn ar hyn o bryd yn Heddlu Dyfed-Powys yw, pan fydd trefnydd digwyddiad yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiad, bydd y timau plismona ac atal bro yn cwblhau'r matricsau ac yn eu cyfeirio i'r Gweithrediadau Arbenigol. Byddant yn eu hadolygu ac yn cynghori'r trefnwyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol a all wedyn gydlynu'r grŵp cynghori ar ddiogelwch. Mae'r heddlu a'r awdurdodau lleol yn cynnal cyfarfodydd dyddiol lle trafodir unrhyw hysbysiadau o'r fath.

Argymhelliad 12: Erbyn 31 Mawrth 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod y gofynion ar gomanderiaid y drefn reoli aur yn ddichonadwy ac yn cynnal diogelwch y cyhoedd, yn enwedig lle ceir digwyddiadau lle mae angen cynnal diogelwch y cyhoedd a chyfrifoldebau eraill yn digwydd ar yr un pryd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi adrodd bod gan y Tîm Cynllunio Gweithredol, sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd yn lleol, y prosesau perthnasol ar waith eisoes. Mae'r tîm yn monitro nifer y digwyddiadau a reolir drwy gydol y flwyddyn gan gomanderiaid y drefn reoli aur. Cedwir cofnodion a darperir adroddiadau i'r Bwrdd Gofynion Plismona Strategol o dan yr eitem agenda 'Trefn gyhoeddus ac argyfyngau sifil'. Bydd aelod o'm tîm yn bresennol yng nghyfarfodydd y bwrdd hwn i oruchwylio. Mae sganio'r gorwel yn nodi digwyddiadau posibl lle gallai comander penodedig y drefn reoli aur angen bod yn bresennol, yn ogystal â'r comander ar alwad.

Argymhelliad 14: Erbyn 31 Awst 2027, dylai fod gan bob heddlu brotocol trosglwyddo wedi ei ddogfennu rhwng yr heddlu a threfnwyr digwyddiadau ar gyfer cyfrifoldeb rheoli dros bob digwyddiad cyhoeddus. Dylai hyn nodi y gallai fod angen i heddluoedd gymryd rheolaeth, er mwyn cyflawni cyfrifoldebau craidd yr heddlu o dan gyfraith gyffredin (arfer hirdymor, yn seiliedig ar achosion cyfreithiol blaenorol).

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynghori bod protocol trosglwyddo eisoes ar waith. Mae memoranda cyd-ddealltwriaeth wedi eu cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr y gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus pellach, megis trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd.

Argymhelliad 19: Erbyn 31 Awst 2027, dylai pob prif gwnstabl gymryd camau i sicrhau bod pob cynnyrch cudd-wybodaeth ac asesiad risg ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, yn cynnwys gemau pêl-droed, yn cydymffurfio â chyfarwyddyd diwygiedig y Coleg Plismona ar gyfer rheoli cudd-wybodaeth. Dylent gynnal gwiriadau sicrhau safonau cadarn ar gyfer prosesau sy'n defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial.

Argymhelliad 20: Erbyn 31 Mawrth 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod cynrychiolydd cudd-wybodaeth o'r heddlu yn bresennol mewn cyfarfodydd grwpiau cynghori ar ddiogelwch ar gyfer y digwyddiadau cyhoeddus hynny lle mae strwythur gorchymyn cudd-wybodaeth ffurfiol ar waith, ac yn rhannu unrhyw asesiad risg yn unol â phrotocolau rhannu gwybodaeth.

Argymhelliad 31: Erbyn 31 Awst 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod y porth digwyddiadau ar gael ar wefan eu heddlu. Dylent gyflwyno gwybodaeth a chudd-wybodaeth berthnasol, a gasglwyd drwy'r porth, i dîm cudd-wybodaeth a briffio strategol Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu.

Bydd Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys yn bwrw ymlaen â'r tri argymhelliad hyn maes o law.

Argymhelliad 22: Erbyn 31 Awst 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod eu heddluoedd yn cwblhau asesiadau o'r effaith ar y gymuned, asesiadau o'r effaith ar fusnes, ac asesiadau o'r effaith ar bobl ar gyfer digwyddiadau ar sail gymesur, yn unol â chanllawiau'r Coleg Plismona.

Argymhelliad 33: Erbyn 31 Mawrth 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod eu heddlu yn defnyddio matrics risg digwyddiadau newydd Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu wrth baratoi cynllun gweithredol ar gyfer pob digwyddiad cyhoeddus.

Rwyf wedi cael sicrwydd y cynhelir asesiadau effaith cymesur lle bo angen, ond bydd Tîm Cynllunio Gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn maes o law.

Argymhelliad 24: Erbyn 31 Mawrth 2027, dylai pob prif gwnstabl sicrhau bod comander y drefn reoli arian mewn trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd (neu ei ddirprwy enwebedig) yn bresennol ym mhob cyfarfod grŵp cynghori ar ddiogelwch sy'n ystyried y digwyddiadau y maent yn eu rheoli.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi sicrwydd bod dirprwy gomander y drefn reoli arian mewn trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd yn mynychu pob cyfarfod grŵp cynghori ar ddiogelwch. Mae'r heddlu hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i nodi digwyddiadau lle gallai fod angen grŵp cynghori ar ddiogelwch.

Argymhelliad 27: Yn ddiymdroi, dylai pob heddlu wrthod unrhyw daliad gan unigolion neu gwmnïau preifat am ddarparu gwasanaethau heddlu mewn digwyddiadau cyhoeddus oni bai ei fod yn cydymffurfio ag adran 25 o Ddeddf yr Heddlu 1996.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cadarnhau bod y Tîm Cynllunio Gweithredol yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol hyn.

Rwy'n ddiolchgar am gael cyhoeddi'r adroddiad hwn a'i argymhellion. Yn fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a thrwy'r strwythurau llywodraethu perthnasol, byddaf yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gwireddu'n llawn. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i gydweithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i fonitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys wrth weithredu'r newidiadau a'r prosesau gofynnol.